



Ysgol Pentreuchaf

69. Polisi Datblygu Ansawdd

Nod

Sicrhau fod y broses fonitro a hunan arfarnu yn dylanwadu ar y cynllunio o safbwynt pob plentyn fel unigolyn, gan dalu sylw i blant galluog a'r rhai sydd yn tangyflawni a thangyrraedd.

Amcanion

Dylid ystyried y broses yn erfyn i ddatblygu a chodi safonau cyflwyniad y plant trwy wella ansawdd y dysgu a'r addysgu.

Ysgogi plant i wella eu sgiliau, agwedd a.y.y.b trwy ddarparu cyfleon effeithiol iddynt wneud hynny.

Canllawiau

1. Dadansoddi asesiadau B2 i gynllunio i'r dyfodol ac asesiadau B6 i edrych yn ôl, adnabod gwendidau a.y.y.b.
2. Gosod targedau Lefelau penodol a'u cofnodi yn y Cynllun Datblygu Ysgol. Dylem fod yn ymwybodol o dargedau gwahanol asiantaethau ~
 - i) Y Cynulliad ~ targedau i'r wlad i gyd
 - ii) Yr Awdurdod ~ targedau i'r sir
 - iii) Y Pennaeth ~ targedau i'r ysgol gyfan
 - iv) Yr Athrawes ~ targedau i'r dosbarth
 - v) Y Plentyn ~ targedau personol.
3. Penderfynu ar dargedau Lefelau realistig ac ymestynnol gan gofio fod niferoedd bychain yn medru gwneud hyn yn anodd ar adegau.
4. Cael cyd~weithrediad rhieni drwy osod targedau personol (nid Lefelau) ar gyfer gwelliant dair gwaith y flwyddyn mewn Noson Rieni. Bydd y rhain wedi eu negydu a'u cydweld gyda'r disgyblion ymlaen llaw.
5. Mae gennym gyfrifoldebau eraill tuag at ein disgyblion, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol a sgiliau dysgu a bywyd.
6. Trwy'r holiaduron blynyddol, ceisiwn ddeall beth sy'n anodd i'r disgyblion a sut y gallwn wella ein addysgu i hyrwyddo'r broses iddynt.
7. Rydym yn ceisio arwain disgyblion i ddeall eu bod yn gyfrifol am eu dysgu a'u datblygiad eu hunain, ac y gallant ofyn am eglurhâd neu gymorth ar unrhyw adeg, heb deimlo cywilydd na'u bod ny cael eu bychanu.
8. Fel rhan o'r gwaith rhaid gwerthuso effeithiolrwydd y camau a gymerwyd i wella ansawdd yn yr ysgol a gwerthuso effeithiolrwydd unrhyw wariant y penderfynwyd arno. Yn y pen draw, bydd ein llwyddiant yn cael ei farnu yn ôl ansawdd, amrediad a dyfnder cyflawniad ein disgyblion.

Casgliad

Mae ein strategaeth i godi safonau a datblygu ansawdd wedi ei sylfaenu ar ddisgwyliadau, cynllunio, addysgu, asesu, dadansoddiadau a pherthynas dda gyda'r plant. Mae ganddynt hwy yr hawl i'r addysg orau posibl i sicrhau dyfodol diogel a llwyddiannus. Trwy ddilyn y canllawiau uchod, gwella safon sgiliau sylfaenol pob plentyn yn yr ysgol.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____